

## Cofnodion Cyfarfod 6ed Ebrill 2021

**Presennol :-** Y Cadeirydd **Gareth Griffiths** a'r Cynghorwyr, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Jane Pierce, R. Hefin Williams. Rhian Evans-Hill a Richard Llwyd Jones  
Croesawyd Y Cynghorydd Elwyn Jones

### **Ymddiheuriadau.**

Idris Thomas, Emma Chappell, Ceri Jones a Lowri Hughes

### **Croeso a Gwedd**

Rhodddwyd gair o groeso i bawb gan Y Cadeirydd a gair o weddi gan Richard LL. Jones.

### **Datgan buddiant**

Dim

## Cofnodion Cyfarfod 3ydd Tachwedd 2020

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

R. LL Jones (1)

Phyllis Ellis (2)

### **Materion o'r cofnodion**

**Mynydd Gwefru** - Bu l'r Cynghorydd Elfed Wyn Williams cynrychioli'r cyngor yn y cyfarfod a gynhaliwyd gyda Siân Gwenllian ynglŷn â dyfodol Mynydd Gwefru. Y bwriad yw gweld a chyfarfod First Hydro cyn symud ymlaen. Cafodd cynrychiolwyr pob Cyngor Cymuned y Dyffryn eu cyfle i leisio eu barn yn y cyfarfod. Bydd mwy o wybodaeth wrth i drafodaethau fynd y neu blaen ar ddyfodol y safle.

**Cyfarfod Llwybrau** - Yn dilyn gwahodd cynrychiolwyr o adran Llwybrau a Hawliau Tramwy yng Nghyngor Gwynedd I drafod y ffordd ymlaen i wella llwybrau plwyf Llanddeiniolen, derbyniwyd ymateb yn nodi fod sawl unai ar wyliau neu i ffwrdd o'r Gwaith. Penderfynwyd gyrru llythyr i bennaeth yr adran yn gofyn am gyfarfod pan yn gyfleus unai mis Mehefin neu Orffennaf, er mwyn symud ymlaen gyda'r gwaith.

**Meysydd Chwarae** - Derbyniwyd galwad gan yr adran yn bryderus fod y Cyngor dal angen trafod ymhellach am feysydd Chwarae gan ein bod byth wedi dod i benderfyniad. Mae yn sicr yn faich enfawr i'r Cyngor gymeryd are u dwylo, nid yn unig yn ariannol, ond hefyd fel baich o sicrhau diogelwch a Gwaith wythnosol ynglŷn â chymaint o barciau chwarae. Roedd Y Cynghorydd Elfed Williams angen ymateb i ddyfodol Cae Bwthyn yn fwy na dim. Penderfynwyd derbyn eu cais am gyfarfod ymhellach a'r is-bwyllgor yn ystod yr wythnosau nesaf.

**Hysbysfyrddau** - Dal yn ceisio cael ymateb yn dilyn gadael neges ar beiriant ateb a ffonio sawl gwaith i'r adran yng Nghyngor Gwynedd. Dal I geisio eto mis yma..

**Llythyr Diolch** - Darllenwyd llythyr o ddiolch gan Seindorf Arian Deiniolen yn dilyn derbyn rhodd ariannol diwedd y flwyddyn.

### **Gohebiaethau a Materion Eraill**

**Llwybr Beicio o Fethel I Lanrug** - Derbyniwyd adborth o'r cyfarfod gan Richard Ll Jones. Cyfarfod a drefnwyd ym Methel. Bwriad yw dilyn i gael llwybr gan fod y lôn yn beryg, troellog a does dim modd culhau'r lôn o gwbl. Penderfynwyd y buasai cael llwybr arwahanu i'r ffordd. Bu trafodaeth hir am y darn o'r lôn sydd yn mynd drwy'r coed. Roedd mwyafrif yn teimlo mai rŵan ydi'r amser i wneud cais. Prif atyniad i hyn wrth gwrs ydi y

buasai plant Bethel yn gallu cerdded neu feicio i'r ysgol Uwchradd, ond yna o bosib y buasai hyn yn arwain at ddim paratoad bws i'r Ysgol. Soniwyd am y llwybr rheilffordd, ond mae rhan health o hwn wedi ei lenwi bellach. Nodwyd hefyd na fuasai tirfeddianwyr yn fodlon gwerthu tir. Sefydlwyd pwyllgor a bydd y cyfarfod nesaf ar yr 22ain Ebrill.

**Pileri Llechi** - Yn ddiweddar, mae sylw wedi ei roi i sawl un o'r waliau hanesyddol yma sydd yn diflannu o'r ardal, ardal chwareli llechi. Mae ymgyrch yn Gerlan yn dilyn tynnu'r ffens pileri llechi oddi ar lwybr cyhoeddus ac ail godi ffens 5 troedfedd gyda weiren bigog. Yn sicr os ydi hyn wedi cael ei ganiatáu mewn un pentref, ond mater o amser cyn y byddwn innau yn yr ardal yma yn ymladd am yr un peth. Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio ac yn arwain cais Safle Treftadaeth y Byd I ardaloedd y Llechi, ac eto mae contractwyr wedi cael caniatâd o rywle i wneud hyn. Penderfynwyd yn unfrydol i gefnogi y cais yma ym Methesda, ac i sefyll ochor yn ochor i beidio caniatáu newid nodweddion unigryw hanesyddol yr ardal.

### **Ceisiadau Cynllunio**

#### **C21/0273/18/DT - 9 Tan y Buarth, Bethel**

Cais ar gyfer trosi ac estynnu modurdy i ffurfio anecs I Nain. **Dim Gwrthwynebiad**

#### **C21/0226/18/DT - Gwêl yr Wyddfa, Dinorwig**

Cais ar gyfer codi estyniad ystafell haul i gefn yr eiddo. **Dim Gwrthwynebiad**

#### **C21/0275/18/DT - Llechwedd, Deiniolen**

Cais ar gyfer codi estyniad deulawr, estyniad un llawr ac addasiadau i'r eiddo. **Dim Gwrthwynebiad**

#### **C21/0201/18/DT - Gwêl yr Wyddfa, Bethel**

Estyniad un llawr ar dalcen tŷ fforddiadwy. **Dim Gwrthwynebiad**

#### **C21/0138/18/DT - 4 Dinorwig House Dinorwig**

Cais i gadw caban ar dir ar gyfer defnydd atodol i dy annedd **Gwrthwynebu ac angen mwy o wybodaeth**

#### **C21/0239/18/DT - 38 Bro Eglwys, Bethel**

Estyniad un llawr ar y talcen

### **Llwybrau**

#### **Llwybrau gyda diffygion wedi tynnu i sylw Cyngor Gwynedd yn disgwyl adroddiad yn ôl**

Giât Mochyn, Carreg y Gath

Llwybr rhwng Tŷ Mawr a Hafod y Fraich, Deiniolen

Cae Goronwy

Llwybr 16 Rhiw Goch, Clwt Bont I Frynrefail

Tros y Waun I Dros y Waun Fach rhif 61, 61A, 63 a 64

Llwybr I Gegin Arthur

Llwybr Sinc - Tarmac yn waelod

Nid yw'r Cyngor Cymuned byth heb gael gwybodaeth bellach o'r Cyngor Sir. Mae'r Clerc wedi ysgrifennu eto yn gofyn oes datblygiadau ynglŷn â'r llwybrau uchod.

### **Ffurflen Flynyddol awdit 2020**

Cyflwynwyd y ffurflen Flynyddol a'r adroddiad. Roedd adroddiad yr archwilwyr yn nodi fod y wybodaeth a gyflwynwyd ar ran Y cyngor yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nad oes unrhyw faterion wedi dod i'w sylw oedd yn codi pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r

gofynion rheoleiddio perthnasol wedi eu bodloni. Er bod un argymell, roedd hyn ond yn rhywbeth oedd ddyddiad oedd heb ei gofnodi. Felly, cymeradwywyd a diolchwyd i'r clerc am ei Gwaith a derbyniwyd y Ffurflen Flynyddol yn unfrydol. Diolch I'r archwilwyr allanol unwaith eto am eu Gwaith eleni. Bydd y Ffurflen a'r adroddiad yn cael ei arddangos ar ein gwefan yn unol â rheolau.

### **Cyllid Diwedd Blwyddyn 2021**

Cyflwynodd y clerc rhestr gyflawn o daliadau a derbyniadau'R cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31 2021. Derbyniwyd fod y gwariant, y taliadau a'r derbyniadau yn gywir. Derbyniwyd mantolen ariannol am y flwyddyn hefyd a oedd yn dangos fod y llyfrau yn gytbwys. Mae gan Y cyngor gyllid yn barod mewn lle ar gyfer y flwyddyn ariannol yma. Penderfynodd y Cyngor dderbyn y dogfennau a'r fantolen ariannol yn hollol gywir. Bydd y clerc dros yr wythnosau nesaf yn paratoi ar gyfer awdit mewnol.

### **Seddi Gwag**

Trafodwyd fod 4 sedd wag o fewn Y Cyngor Cymuned. Byddwn yn trafod hyn ymhellach yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor. Os oes gyda diddordeb o ymuno yng ngwaith Y Cyngor Cymuned, mae mwy o wybodaeth i gael gan y clerc.

### **O gwmpas y Bwrdd**

**Penisa'r-waun** - Llwybr cefn yr Eglwys - Giât Mochyn, nid oes arwydd yno yn dweud llwybr cyhoeddus. Credu mai rhif 92 ydi'r llwybr.

**Cwmni Till Hill** - Byth wedi clirio'r coed sydd wedi eu torri ar lwybr tuag at Gegin Arthur na chwaith yn y cae ger Ynys Iago.

### **Cadarnhau Taliadau:**

**538 - £761.00**

**539 - £150**

**5401 - £150**